



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 2798 (Cy.237)

2006 No. 2798 (W.237)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

**Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi
Mesurau Cymunedol ar gyfer
Monitro drwy Loeren) (Cymru)
2006**

**The Sea Fishing (Enforcement of
Community Satellite Monitoring
Measures) (Wales) Order
2006**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer gorfodi yng Nghymru Reoliad y Comisiwn (EC) 2244/2003 (OJ Rhif L333, 20.12.03, t.17) sy'n gosod darpariaethau manwl ynghylch Systemau Monitro Llongau ar sail Lloeren ("y Rheoliad y Comisiwn").

This Order provides for the enforcement in Wales of Commission Regulation (EC) 2244/2003 (OJ No L333, 20.12.03, p.17) laying down detailed provisions regarding satellite-based Vessel Monitoring Systems ("the Commission Regulation").

Mae erthyglau 5 i 9 yn gymwys i gychod pysgota Prydeinig a'r Gymuned Ewropeaidd yng Nghymru yn creu tramgwyddau am fynd yn groes i ofynion sy'n ymwneud â: gosod dyfais olrhain drwy loeren (erthygl 5); diffodd dyfais olrhain drwy loeren mewn porthladd heb hysbysiad ymlaen llaw (erthygl 6); yr wybodaeth sydd i'w throsglwyddo gan y ddyfais olrhain drwy loeren (erthygl 7); y cyfrifoldebau ynghylch dyfais olrhain drwy loeren (erthygl 8) a methiant technegol dyfais olrhain drwy loeren neu ddyfais olrhain drwy loeren nad yw'n gweithio (erthygl 9).

Articles 5 to 9 apply to British and European Community fishing boats within Wales and create offences for contravening requirements relating to: the installation of a satellite-tracking device (article 5); the switching off of a satellite-tracking device in port without prior notification (article 6); the information to be transmitted by the satellite-tracking device (article 7); the responsibilities relating to a satellite-tracking device (article 8) and the technical failure or non-functioning of a satellite-tracking device (article 9).

Mae erthyglau 11 i 14 yn gymwys i gychod pysgota trydedd gwlad yng Nghymru ac yn creu tramgwyddau am fynd yn groes i ofynion sy'n ymwneud â: gosod dyfais olrhain drwy loeren (erthygl 11); yr wybodaeth sydd i'w throsglwyddo gan y ddyfais olrhain drwy loeren (erthygl 12); y cyfrifoldebau ynghylch dyfais olrhain drwy loeren (erthygl 13) a methiant technegol dyfais olrhain drwy loeren neu ddyfais olrhain drwy loeren nad yw'n gweithio (erthygl 14).

Articles 11 to 14 apply to third country fishing boats within Wales and create offences for contravening requirements relating to: the installation of a satellite-tracking device (article 11); the information to be transmitted by the satellite-tracking device (article 12); the responsibilities relating to the satellite-tracking device (article 13) and the technical failure or non-functioning of the satellite tracking device (article 14).

Mae'r Gorchymyn yn darparu bod person sy'n euog o dramgwydd, heblaw am dramgwydd o dan erthygl 19, yn atebol ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na £50,000 ac ar gollfarn ar ddiad i ddirwy. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer casglu'r dirwyon

The Order provides that the person guilty of an offence under it, other than an offence under article 19, is liable, on summary conviction, to a fine not exceeding £50,000, or on conviction on indictment, to a fine. The Order also provides for the recovery of

a gaiff eu gosod, neu pan ymdrinnir â hwy fel pe baent wedi'u gosod, gan lys ynadon (erthygl 16).

At ddibenion gorfodi Rheoliad y Comisiwn mae'r Gorchymyn yn rhoi i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig y pwerau i: fyrddio cychod pysgota; cynnal prawf ar unrhyw gyfarpar ar fwrdd y cwch; ei gwneud yn ofynnol bod dogfennau sy'n ymwneud â'r cwch, cyfarpar, neu bysgota neu weithrediadau atodol yn cael eu dangos; chwilio'r cwch; tynnu oddi yno y ddyfais olrhain drwy loeren neu unrhyw gyfarpar arall ar y cwch; mynd â'r cwch i'r porthladd agosaf mwyaf addas a dal gafael yn y cwch (erthygl 17). Darperir amddiffyniad i swyddogion o'r fath rhag atebolrwydd yn erthygl 18. Mae methu â chydymffurfio â gofynion a osodir gan swyddogion neu eu rhwystro wrth iddynt arfer eu pwerau yn dramgwydd o dan erthygl 19, sy'n dwyn atebolrwydd o ddirwy hyd at y mwyafswm statudol ar gollfarn ddiannod neu am ddirwy ar gollfarn ar ddiad. Mae erthyglau 20 a 21 yn ymdrin â thramgwyddau corfforaethol a thramgwyddau cyfatebol a derbynioldeb dogfennau mewn tystiolaeth.

Mae erthygl 22 yn dirymu Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000 a Rheoliadau Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000 2002.

Mae Asesiad o Effaith Reoliadol o ran y Gorchymyn hwn wedi'i baratoi a'i roi yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth y Gangen Pysgodfeydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

finer imposed, or treated as imposed, by a magistrates' court (article 16).

For the purposes of enforcing the Commission Regulation the Order confers on British sea-fishery officers the powers to: board fishing boats; test any equipment on board; require the production of documentation relating to the boat, equipment, or fishing or ancillary operations; search the boat; remove the satellite-tracking device or any other equipment on the boat; and take the boat to the nearest convenient port and detain the boat (article 17). Protection of such officers from liability is provided for in article 18. Failing to comply with requirements imposed by officers or obstructing them in the exercise of their powers is an offence under article 19, carrying liability to a fine up to the statutory maximum on summary conviction or a fine on conviction on indictment. Articles 20 and 21 deal with corporate and equivalent offences and admissibility of documents in evidence.

Article 22 revokes the Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2000 and the Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2000 Amendment Regulations 2002.

A Regulatory Appraisal in relation to this Order has been prepared and placed in the library of the National Assembly for Wales. Copies can be obtained from Fisheries Branch, National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2006 Rhif 2798 (Cy.237)

2006 No. 2798 (W.237)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU****SEA FISHERIES,
WALES**

Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi
Mesurau Cymunedol ar gyfer
Monitro drwy Loeren) (Cymru)
2006

The Sea Fishing (Enforcement of
Community Satellite Monitoring
Measures) (Wales) Order
2006

Wedi'i wneud 17 Hydref 2006
Yn dod i rym 20 Hydref 2006

Made 17 October 2006
Coming into force 20 October 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(1) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by section 30(2) of the Fisheries Act 1981(1), makes the following Order:

RHAN 1**PART 1**

CYFFREDINOL

GENERAL

Enwi, cymhwyso a chychwyn**Title, application and commencement**

1.-(1) -Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro drwy Loeren) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 20 Hydref 2006.

1.-(1) The title of this Order is the Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2006 and it comes into force on 20 October 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(3) Nid oes dim ym mharagraff (2) yn rhagfarnu effaith adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(2) o ran unrhyw ddarpariaeth yn Gorchymyn hwn neu at ddibenion cysylltiedig ag ef sy'n creu tramgydd.

(3) Nothing in paragraph (2) prejudices the effect of section 30(2A) of the Fisheries Act 1981(2) in relation to, or for purposes incidental to, any provision in this Order which creates an offence.

Dehongli**Interpretation**

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn-

2.-(1) In this Order-

ystyr "Canolfan Monitro Pysgodfeydd" ("*Fisheries Monitoring Centre*") yw Canolfan Monitro

"British fishing boat" ("*cwch pysgota Prydeinig*") means a fishing boat which is registered in the

(1) 1981 p. 29. Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) cafodd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 30(2) o Ddeddf 1981 eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru.

(1) 1981 c. 29. By virtue of article 2(a) of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the functions exercisable under section 30(2) of the 1981 Act were transferred to the National Assembly in so far as exercisable in relation to Wales.

(2) Mewnysodwyd adran 30(2A) gan O.S. 1999/1820, erthygl 4 ac Atodlen 2, Rhan 1, paragraff 68(1) a (5)(a).

(2) Section 30(2A) was inserted by S.I. 1999/1820, article 4 and Schedule 2, Part 1, paragraph 68(1) and (5)(a).

Pysgodfeydd a sefydlwyd o dan Erthygl 3(7) o Reoliad y Cyngor 2847/93;

ystyr "cwch pysgota Cymunedol" ("*Community fishing boat*") yw cwch pysgota sy'n chwifio baner Aelod-wladwriaeth o'r Gymuned Ewropeaidd ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sydd wedi cael ei gofrestru yn yr Aelod-wladwriaeth honno;

ystyr "cwch pysgota Prydeinig" ("*British fishing boat*") yw cwch pysgota sydd wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(1) neu sydd dan berchnogaeth lwy'r personau sy'n gymwys i berchnogi llongau Prydeinig at ddibenion y Rhan honno o'r Ddeddf;

ystyr "cwch pysgota trydedd gwlad" ("*third country fishing boat*") yw llong bysgota sy'n chwifio baner gwladwriaeth ac eithrio Aelod-wladwriaeth o'r Cymunedau Ewropeaidd ac sydd wedi cael ei chofrestru yn y wladwriaeth honno ac mae'n cynnwys llong dderbyn yn ystyr Rheoliad y Cyngor 2847/93;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "*Wales*" gan adran 155(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(2);

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "darpariaeth gyfatebol" ("*equivalent provision*") yw unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw Orchymyn arall a wneir at ddibenion gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn, sy'n rhychwantu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, y mae ganddi effaith gyfatebol i ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn, y gellir rhoi rheithdrefnau ar waith yng Nghymru ynglyn â hi yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981;

ystyr "dyfais olrhain drwy loeren" ("*satellite-tracking device*") yw dyfais sy'n anfon yr wybodaeth sy'n ofynnol drwy gyfrwng lloeren a gorsaf ddaearol ar y tir i Ganolfan Monitro Pysgodfeydd;

ystyr "person sydd â gofal" ("*person in charge*"), o ran cwch pysgota, yw perchennog, meistr neu'r siartwr, os oes un, y cwch pysgota neu asiant unrhyw un ohonynt;

United Kingdom under Part II of the Merchant Shipping Act 1995(1) or is owned wholly by persons qualified to own British ships for the purposes of that part of the Act;

"Commission Regulation" ("*Rheoliad y Comisiwn*") means Commission Regulation (EC) No. 2244/2003 laying down detailed provisions regarding satellite-based Vessel Monitoring Systems(2);

"Community fishing boat" ("*cwch pysgota Cymunedol*") means a fishing boat flying the flag of, and registered in, a Member State of the European Community other than the United Kingdom;

"equivalent provision" ("*darpariaeth gyfatebol*") means any provision in any other Order made for the purposes of making provision for the administration and enforcement of the Commission Regulation, extending to any part of the United Kingdom, which has equivalent effect to a provision in this Order, proceedings in respect of which may be taken in Wales by virtue of section 30(2A) of the Fisheries Act 1981;

"Fisheries Monitoring Centre" ("*Canolfan Monitro Pysgodfeydd*") means a Fisheries Monitoring Centre established under Article 3(7) of Council Regulation 2847/93;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"person in charge" ("*person sydd â gofal*"), in relation to a fishing boat, means the owner, master or charterer, if any, of the fishing boat or the agent of any of them;

"Council Regulation 2847/93" ("*Rheoliad y Cyngor 2847/93*") means Council Regulation (EEC) No. 2847/93 establishing a control system applicable to the common fisheries policy(3) as amended by Council Regulation (EC) No. 2870/95(4), Council Decision (EC) No. 95/528(5), Council Regulation (EC) No. 2489/96(6), Council Regulation (EC) No. 686/97(7), Council Regulation (EC) No. 2205/97(8), Council Regulation (EC) No. 2635/97(9), Council Regulation (EC) No. 2846/98(10), Council

(1) 1995 p.21.

(2) 1998 p.38.

(1) 1995 c.21.

(2) O.J. No. L333, 20.12.03, p.17.

(3) O.J. No. L261, 20.10.93, p.1.

(4) O.J. No. L301, 14.12.95, p.1.

(5) O.J. No. L301, 14.12.95, p.35.

(6) O.J. No. L338, 28.12.96, p.12.

(7) O.J. No. L102, 19.4.97, p.1.

(8) O.J. No. L304, 7.11.97, p.1.

(9) O.J. No. L356, 31.12.97, p.14.

(10) O.J. No. L358, 31.12.98, p.5.

ystyr "Rheoliad y Cyngor 2847/93" ("*Council Regulation 2847/93*") yw Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2847/93 sy'n sefydlu system reoli sy'n gymwys i'r polisi pysgodfeydd cyffredin⁽¹⁾ fel y'i newidiwyd gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 2870/95⁽²⁾, Penderfyniad y Cyngor (EC) Rhif 95/528⁽³⁾, Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2489/96⁽⁴⁾, Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 686/97⁽⁵⁾, Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2205/97⁽⁶⁾, Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2635/97⁽⁷⁾, Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2846/98⁽⁸⁾, Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 806/2003⁽⁹⁾, Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1954/2003⁽¹⁰⁾ a Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 768/2005⁽¹¹⁾;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2244/2003 sy'n gosod darpariaethau manwl ynghylch Systemau Monitro Llongau ar sail lloeren⁽¹²⁾; ac

ystyr "yr wybodaeth sy'n ofynnol" ("*required information*") yw'r wybodaeth a osodir yn Erthygl 5(1) o Reoliad y Comisiwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad at lyfr lòg, datganiad, dogfen neu wybodaeth sy'n ofynnol yn cynnwys, yn ogystal â llyfr lòg, datganiad, dogfen neu'r wybodaeth sy'n ofynnol mewn ysgrifenedig-

- (a) unrhyw fap, cynllun, graff, lluniad neu ddyddiadur;
- (b) unrhyw ffotograff;
- (c) unrhyw ddisg, tâp, trac sain neu ddyfais arall sy'n recordio synau neu ddata arall (ond nid delweddau gweledol) fel bod modd eu hatgynhyrchu ymhellach (gyda neu heb gymorth unrhyw gyfarpar arall); ac
- (ch) unrhyw ffilm (gan gynnwys microffilm), negydd, tâp, disg neu ddyfais arall y mae un neu fwy o ddelweddau gweledol yn cael eu recordio arnynt fel (fel y crybwyllwyd ynghynt) atgynhyrchu'r delweddau ymhellach.

Regulation (EC) No. 806/2003⁽¹⁾, Council Regulation (EC) No.1954/2003⁽²⁾ and Council Regulation (EC) No.768/2005⁽³⁾;

"required information" ("*yr wybodaeth sy'n ofynnol*") means the information set out in Article 5(1) of the Commission Regulation;

"satellite-tracking device" ("*dyfais olrhain drwy loeren*") means a device which sends the required information by way of satellite and land earth station to a Fisheries Monitoring Centre;

"third country fishing boat" ("*cwch pysgota trydedd gwlad*") means a fishing vessel flying the flag of, and registered in, a state other than a Member State of the European Communities and includes a receiving vessel within the meaning of Council Regulation 2847/93; and

"Wales" ("*Cymru*") has the same meaning as in section 155(1) and (2) of the Government of Wales Act 1998⁽⁴⁾.

(2) Any reference to a logbook, declaration or document or any required information includes, in addition to a logbook, declaration or document or required information in writing-

- (a) any map, plan, graph, drawing or diary;
- (b) any photograph;
- (c) any disk, tape, sound track or other device in which sounds or other data (not being visual aids) are recorded so as to be capable (with or without the aid of some other equipment) of being reproduced therefrom; and
- (d) any film (including microfilm), negative, tape, disk or other device in which one or more visual images are recorded so as to be capable (as aforesaid) of being reproduced therefrom.

(1) O.J. Rhif L261, 20.10.93, t.1.

(2) O.J. Rhif L301, 14.12.95, t.1.

(3) O.J. Rhif L301, 14.12.95, t.35.

(4) O.J. Rhif L338, 28.12.96, t.12.

(5) O.J. Rhif L102, 19.4.97, t.1.

(6) O.J. Rhif L304, 7.11.97, t.1.

(7) O.J. Rhif L356, 31.12.97, t.14.

(8) O.J. Rhif L358, 31.12.98, t.5.

(9) O.J. Rhif L122, 16.5.03, t.1.

(10) O.J. Rhif L289, 7.11.03, t.1.

(11) O.J. Rhif L128, 21.5.05, t.1.

(12) O.J. Rhif L333, 20.12.03, t.17.

(1) O.J. No. L122, 16.5.03, p.1.

(2) O.J. No. L289, 7.11.03, p.1.

(3) O.J. No. L128, 21.5.05, p.1.

(4) 1998 c.38.

Cymhwyso

3. Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys yn unig i gyhoch pysgota y mae Rheoliad y Comisiwn yn gymwys iddynt.

RHAN 2

DARPARIAETHAU SY'N YMWNEUD Â CHYCHOD PYSGOTA PRYDEINIG A CHYCHOD CYMUNEDOL YNG NGHYMRU

Cymhwyso Rhan 2

4. Mae erthyglau 5 i 9 yn gymwys i-
- (a) cychod pysgota Prydeinig yng Nghymru; a
 - (b) cychod pysgota Cymunedol yng Nghymru;

Gosod dyfais olrhain drwy loeren

5.-(1) Mae person sydd â gofal cwch pysgota y mae ganddo ddyfais olrhain drwy loeren sydd wedi'i gosod at ddibenion Rheoliad y Comisiwn y gellir ei diystyru â llaw yn euog o dramgwydd.

(2) Mae person sydd â gofal cwch pysgota y mae ganddo ddyfais olrhain drwy loeren sydd wedi'i gosod at ddibenion Rheoliad y Comisiwn sy'n caniatáu rhoi mewnbwn ac allbwn safleoedd anwir yn euog o dramgwydd.

(3) Mae person sydd â gofal cwch pysgota sy'n gadael porthladd heb ddyfais olrhain drwy loeren sy'n gweithio ar ei fwrdd yn euog o dramgwydd.

Gwahardd diffodd dyfais olrhain drwy loeren tra byddir mewn porthladd heb hysbysu ymlaen llaw

6. Mae person sydd â gofal cwch pysgota lle diffoddwyd dyfais olrhain drwy loeren heblaw yn unol ag Erthygl 8(3) o Rheoliad y Comisiwn yn euog o dramgwydd.

Trosglwyddo'r wybodaeth sy'n ofynnol

7.-(1) Mae person sydd â gofal cwch pysgota, y mae'r ddyfais olrhain drwy loeren sydd arno'n methu â throsglwyddo data gan gydymffurfio ag Erthygl 5(1) o Reoliad y Comisiwn fesul awr, yn euog o dramgwydd ac eithrio-

- (a) os bydd y ddyfais olrhain drwy loeren yn trosglwyddo data gan gydymffurfio ag Erthygl 5(1) o Reoliad y Comisiwn fesul dwyawr a bod Canolfan Monitro Pysgodfeydd gwladwriaeth y faner yn gallu, yn unol ag Erthygl 8(2) o Reoliad y Comisiwn, nodi safle gwirioneddol y cwch pysgota, neu

Application

3. This Order only applies to fishing boats to which the Commission Regulation applies.

PART 2

PROVISIONS RELATING TO BRITISH FISHING BOATS AND COMMUNITY FISHING BOATS WITHIN WALES

Application of Part 2

4. Articles 5 to 9 apply to-
- (a) British fishing boats within Wales; and
 - (b) Community fishing boats within Wales.

Installation of a satellite-tracking device

5.-(1) A person in charge of a fishing boat which has a satellite-tracking device installed for the purposes of the Commission Regulation which is capable of being manually overridden is guilty of an offence.

(2) A person in charge of a fishing boat which has a satellite-tracking device installed for the purposes of the Commission Regulation which permits the input or output of false positions is guilty of an offence.

(3) A person in charge of a fishing boat which leaves port without an operational satellite-tracking device installed on board is guilty of an offence.

Prohibition against switching off a satellite-tracking device whilst in port without prior notification

6. A person in charge of a fishing boat on which a satellite-tracking device is switched off other than in accordance with Article 8(3) of the Commission Regulation is guilty of an offence.

Transmission of required information

7.-(1) A person in charge of a fishing boat, the satellite-tracking device on which fails to transmit data in compliance with Article 5(1) of the Commission Regulation on an hourly basis, is guilty of an offence except where-

- (a) the satellite-tracking device is transmitting data in compliance with Article 5(1) of the Commission Regulation on a two hourly basis and the Fisheries Monitoring Centre of the flag state can, in accordance with Article 8(2) of the Commission Regulation, poll the actual position of the fishing boat, or

- (b) os bydd y ddyfais olrhain drwy loeren wedi cael ei diffodd gan gydymffurfio ag Erthygl 8(3) o Reoliad y Comisiwn, neu
- (c) os caiff y data ei gyfathrebu gan gydymffurfio ag Erthygl 11(1) o Reoliad y Comisiwn.

Cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r ddyfais olrhain drwy loeren

8.-(1) Yn ddarostyngedig i gydymffurfio ag Erthygl 8(3) o Reoliad y Comisiwn, mae person sydd â gofal cwch pysgota y mae methiant ynglŷn ag ef i gydymffurfio ag Erthygl 6(1) o Reoliad y Comisiwn, yn euog o dramgwydd.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) mae person sydd â gofal cwch pysgota y mae methiant ynglŷn ag ef i gydymffurfio ag Erthyglau 6(2) (a), (b), (c) neu (d) o Reoliad y Comisiwn, fel y'u darllenir gydag Erthygl 11(4) o'r Rheoliad hwnnw, yn euog o dramgwydd.

(3) Nid yw person sydd â gofal cwch pysgota y mae methiant ynglŷn ag ef i gydymffurfio ag Erthygl 6(2)(d) o Reoliad y Comisiwn, os yw'r rhanddirymiad yn Erthygl 12(1) o Rheoliad hwnnw yn gymwys, yn euog o dramgwydd.

(4) Mae person sydd â gofal cwch pysgota sy'n mynd yn groes i Erthygl 6(3) o Reoliad y Comisiwn yn euog o dramgwydd.

Methiant technegol dyfais olrhain drwy loeren neu ddyfais olrhain drwy loeren nad yw'n gweithio

9.-(1) Os oes methiant technegol yn y ddyfais olrhain drwy loeren sydd ynglŷn â chwch pysgota neu os nad yw'r ddyfais olrhain drwy loeren ynglŷn ag ef yn gweithio, mae person sydd â gofal y cwch pysgota hwnnw ac sy'n methu â chyfathrebu gwybodaeth yn unol ag Erthygl 11(1) o Reoliad y Comisiwn yn euog o dramgwydd.

(2) Mae person sydd â gofal cwch pysgota sy'n gadael porthladd yn groes i Erthygl 11(2) o Reoliad y Comisiwn, yn euog o dramgwydd.

(3) Yr awdurdod cymwys o dan Erthygl 11(2) o Reoliad y Comisiwn yw swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

- (b) the satellite-tracking device has been switched off in compliance with Article 8(3) of the Commission Regulation, or
- (c) data is being communicated in compliance with Article 11(1) of the Commission Regulation.

Responsibilities relating to the satellite-tracking device

8.-(1) Subject to compliance with Article 8(3) of the Commission Regulation, a person in charge of a fishing boat in respect of which there is a failure to comply with Article 6(1) of the Commission Regulation, is guilty of an offence.

(2) Subject to paragraph (3) a person in charge of a fishing boat in respect of which there is a failure to comply with Articles 6(2) (a), (b), (c) or (d) of the Commission Regulation, as read with Article 11(4) of that Regulation, is guilty of an offence.

(3) A person in charge of a fishing boat in respect of which there is a failure to comply with Article 6(2)(d) of the Commission Regulation where the derogation in Article 12(1) of that Regulation applies is not guilty of an offence.

(4) A person in charge of a fishing boat in respect of which there is a contravention of Article 6(3) of the Commission Regulation is guilty of an offence.

Technical failure or non-functioning of the satellite-tracking device

9.-(1) A person in charge of a fishing boat in respect of which, in the event of a technical failure or non-functioning of the satellite-tracking device, there is a failure to communicate information in compliance with Article 11(1) of the Commission Regulation is guilty of an offence.

(2) A person in charge of a fishing boat which leaves port in contravention of Article 11(2) of the Commission Regulation is guilty of an offence.

(3) The competent authority under Article 11(2) of the Commission Regulation is a British sea-fishery officer.

RHAN 3

DARPARIAETHAU SY'N YMWNEUD Â CHYCHOD PYSGOTA TRYDEDD GWLAD YNG NGHYMRU

Cymhwysio Rhan 3

10. Mae erthyglau 11 i 14 yn gymwys i gychod pysgota trydedd gwlad yng Nghymru.

Gosod dyfais olrhain drwy loeren

11.-(1) Mae person sydd â gofal cwch pysgota y mae ganddo ddyfais olrhain drwy loeren sydd wedi'i gosod at ddibenion Rheoliad y Comisiwn y gellir ei diystyru â llaw yn euog o dramgwydd.

(2) Mae person sydd â gofal cwch pysgota y mae ganddo ddyfais olrhain drwy loeren sydd wedi'i gosod at ddibenion Rheoliad y Comisiwn sy'n caniatáu rhoi mewnbwn ac allbwn safleoedd anwir yn euog o dramgwydd.

(3) Mae person sydd â gofal cwch pysgota sydd heb ddyfais olrhain drwy loeren sy'n gweithio ar ei fwrdd yn euog o dramgwydd.

Trosglwyddo'r wybodaeth sy'n ofynnol

12. Mae person sydd â gofal cwch pysgota, y mae'r ddyfais olrhain drwy loeren sydd arno'n methu â throsglwyddo data i Ganolfan Monitro Pysgodfeydd gwladwriaeth y faner gan gydymffurfio ag Erthyglau 18 a 20 o Reoliad y Comisiwn, yn euog o dramgwydd.

Cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r ddyfais olrhain drwy loeren

13.-(1) Mae person sydd â gofal cwch pysgota sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 19(1) o Reoliad y Comisiwn, yn euog o dramgwydd.

(2) Mae person sydd â gofal cwch pysgota sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 19(2) o Reoliad y Comisiwn, yn euog o dramgwydd.

(3) Mae person sydd â gofal cwch pysgota sy'n mynd yn groes i Erthygl 19(3) o Reoliad y Comisiwn yn euog o dramgwydd.

Methiant technegol dyfais olrhain drwy loeren neu ddyfais olrhain drwy loeren nad yw'n gweithio

14.-(1) Os oes methiant technegol yn y ddyfais olrhain drwy loeren sydd ynglŷn â chwch pysgota neu os nad yw'r ddyfais olrhain drwy loeren ynglŷn ag ef yn gweithio, mae person sydd â gofal y cwch pysgota hwnnw ac sy'n methu â chyfathrebu gwybodaeth yn unol ag Erthyglau 23(1) a 23(2) o Reoliad y Comisiwn yn euog o dramgwydd.

PART 3

PROVISIONS RELATING TO THIRD COUNTRY FISHING BOATS WITHIN WALES

Application of Part 3

10. Articles 11 to 14 apply to third country fishing boats within Wales.

Installation of a satellite-tracking device

11.-(1) A person in charge of a fishing boat which has a satellite-tracking device installed for the purposes of the Commission Regulation which is capable of being manually overridden is guilty of an offence.

(2) A person in charge of a fishing boat which has a satellite-tracking device installed for the purposes of the Commission Regulation which permits the input or output of false positions is guilty of an offence.

(3) A person in charge of a fishing boat which does not have an operational satellite-tracking device installed on board is guilty of an offence.

Transmission of required information

12. A person in charge of a fishing boat the satellite-tracking device on which fails to transmit data to the Fisheries Monitoring Centre of the flag state in compliance with Articles 18 and 20 of the Commission Regulation is guilty of an offence.

Responsibilities relating to the satellite-tracking device

13.-(1) A person in charge of a fishing boat in respect of which there is a failure to comply with Article 19(1) of the Commission Regulation is guilty of an offence.

(2) A person in charge of a fishing boat in respect of which there is a failure to comply with Article 19(2) of the Commission Regulation is guilty of an offence.

(3) A person in charge of a fishing boat in respect of which there is a contravention of Article 19(3) of the Commission Regulation is guilty of an offence.

Technical failure or non-functioning of the satellite-tracking device

14.-(1) A person in charge of a fishing boat in respect of which, in the event of a technical failure or non-functioning of the satellite-tracking device, there is a failure to communicate information in compliance with Articles 23(1) and 23(2) of the Commission Regulation is guilty of an offence.

(2) Mae person sydd â gofal cwch pysgota sy'n gadael porthladd yn groes i Erthygl 23(3) o Reoliad y Comisiwn, yn euog o dramgwydd.

(3) Yr awdurdod cymwys o dan Erthygl 23(3) o Reoliad y Comisiwn yw swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

RHAN 4

COSBAU A CHASGLU DIRWYON

Cosbau

15. Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan erthyglau 5, 6, 7, 8, 9, 11, 12, 13 neu 14 o'r Gorchymyn hwn neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol yn agored-

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na £50,000; neu
- (b) o'i gollfarnu ar ddiad i ddirwy.

Casglu dirwyon

16.-(1) Os gosodir dirwy gan lys ynadon ar berson sydd â gofal cwch pysgota a gollfarnir gan y llys o dramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff y llys-

- (a) dyroddi gwarant atafaelu yn erbyn y cwch a oedd yn gysylltiedig â'r tramgwydd a gafodd ei gyflawni a'i offer pysgota a'i ddalfa ac unrhyw eiddo gan y person a gollfarnwyd at godi'r swm ar gyfer y ddirwy; a
- (b) gorchymyn dal gafael yn y cwch a'i offer a'i ddalfa am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis ar ôl dyddiad y collfarniad neu hyd nes y telir y ddirwy neu hyd nes y codir y swm ar gyfer y ddirwy yn unol ag unrhyw warant o'r fath, p'un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

(2) Mae adrannau 77(1) a 78 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(1) yn gymwys i warant atafaelu a ddyroddir o dan yr erthygl hon fel y maent yn gymwys i warant atafaelu a ddyroddir o dan Ran III o'r Ddeddf honno.

(3) Pan fydd gorchymyn, o ran dirwy ynghylch tramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, o dan Erthygl 95 o Orchymyn Llysoedd Ynadon (Gogledd Iwerddon) 1981(2) neu adran 222 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (yr Alban) 1995(3) (y mae'r ddwy yn ymwneud â throsglwyddo dirwyon o un awdurdodaeth i un arall) yn pennu ardal cyfiawnder lleol yng Nghymru, mae'r erthygl hon yn

(1) 1980 p.43. Diwygiwyd adran 78 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p.48), adrannau 37 a 46, a Deddf y Llysoedd 2003 (p.39), adran 109(1) ac Atodlen 8 paragraff 219(a).

(2) O.S. 1981/1675 (GI 26).

(3) 1995 p.46.

(2) A person in charge of a fishing boat which leaves port in contravention of Article 23(3) of the Commission Regulation is guilty of an offence.

(3) The competent authority under Article 23(3) of the Commission Regulation is a British sea-fishery officer.

PART 4

PENALTIES AND RECOVERY OF FINES

Penalties

15. A person found guilty of an offence under articles 5, 6, 7, 8, 9, 11, 12, 13 or 14 of this Order or under any equivalent provision is liable-

- (a) on summary conviction to a fine not exceeding £50,000; or
- (b) on conviction on indictment to a fine.

Recovery of fines

16.-(1) Where a fine is imposed by a magistrates' court on a person in charge of a fishing boat who is convicted by the court of an offence under this Order or any equivalent provision, the court may-

- (a) issue a warrant of distress against the boat involved in the commission of the offence and its fishing gear and catch and any property of the person convicted for the purpose of levying the amount of the fine; and
- (b) order such boat and its gear and catch to be detained for a period not exceeding three months from the date of conviction or until the fine is paid or the amount of the fine is levied in pursuance of any such warrant, whichever occurs first.

(2) Sections 77(1) and 78 of the Magistrates' Courts Act 1980(1) apply to a warrant of distress issued under this article as they apply to a warrant of distress issued under Part III of that Act.

(3) Where, in relation to a fine in respect of an offence under this Order or any equivalent provision, an order under article 95 of the Magistrates' Courts (Northern Ireland) Order 1981(2) or section 222 of the Criminal Procedure (Scotland) Act 1995(3) (both of which deal with transfer of fines from one jurisdiction to another) specifies a local justice area in Wales, this article applies as if the fine were imposed by a court

(1) 1980 c.43. Section 78 was amended by the Criminal Justice Act 1982 (c.48), sections 37 and 46, and the Courts Act 2003 (c.39), section 109(1) and Schedule 8 paragraph 219(a).

(2) S.I. 1981/1675 (NI 26).

(3) 1995 c.46.

gymwys fel pe bai'r ddirwy wedi cael eu gosod gan lys yn yr ardal cyfiawnder lleol honno.

RHAN 5

PWERAU SWYDDOGION PYSGODFEYDD MÔR PRYDEINIG

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig mewn cysylltiad â chychod pysgota

17.-(1) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mewn perthynas ag-

- (a) cwch pysgota Prydeinig yng Nghymru;
- (b) cwch pysgota Cymunedol yng Nghymru; neu
- (c) cwch pysgota trydedd gwlad yng Nghymru.

(2) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, gyda neu heb bersonau a neilltuwyd i gynorthwyo'r swyddog hwnnw wrth ei ddyletswyddau ac, at y diben hwnnw, caiff fynnu bod y cwch yn stopio a chaiff wneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso mynd ar fwrdd y cwch neu ddod oddi arno.

(3) Caiff y swyddog fynnu bod y meist'r a phersonau eraill ar fwrdd y llong yn dod ger ei fron a chaiff wneud unrhyw archwiliad ac ymholiad sy'n ymddangos i'r swyddog eu bod yn angenrheidiol at y diben a grybwyllir ym mharagraff (1) ac, yn benodol-

- (a) caiff chwilio am unrhyw gyfarpar ar y cwch, gan gynnwys dyfais olrhain drwy loeren, a chaiff eu harchwilio a chynnal profion arnynt, a'i gwneud yn ofynnol i'r personau ar fwrdd y cwch wneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog ei fod yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r archwiliad a'r prawf;
- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sydd ar fwrdd y cwch yn dangos unrhyw ddogfen ynglŷn â'r cwch, neu gyfarpar y cwch neu unrhyw weithrediadau pysgota neu weithrediadau eraill cysylltiedig neu unrhyw ddogfen ynglŷn â'r personau ar y bwrdd sydd dan ofal neu ym meddiant y person hwnnw;
- (c) at ddibenion canfod a gyflawnwyd tramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a chaiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ar fwrdd y cwch wneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog ei fod yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r archwiliad;
- (ch) caiff archwilio a chymryd copïau a chadw unrhyw ddogfen o'r fath a ddangosir i'r swyddog neu os daw o hyd iddi ar fwrdd y cwch, tra bydd y swyddog yn cwblhau unrhyw

within that local justice area.

PART 5

POWERS AND PROTECTION OF BRITISH SEA FISHERY OFFICERS

Powers of British sea-fishery officers in relation to fishing boats

17.-(1) For the purpose of enforcing this Order or any equivalent provision a British sea-fishery officer may exercise the powers conferred by this article in relation to-

- (a) a British fishing boat within Wales;
- (b) a Community fishing boat within Wales; or
- (c) a third country fishing boat within Wales.

(2) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist the officer in the duties of that officer, and for that purpose may require the boat to stop and do anything else which will facilitate the boarding of, or the disembarkation from, the boat.

(3) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination and inquiry which appears to the officer to be necessary for the purpose mentioned in paragraph (1) and, in particular-

- (a) may search for, examine and may test any equipment of the boat, including the satellite-tracking device, and require persons on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the examination and test;
- (b) may require any person on board the boat to produce any document relating to the boat, or the equipment of the boat, to any fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board, which is in the custody or possession of that person;
- (c) for the purpose of ascertaining whether an offence under this Order or under any equivalent provision has been committed, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search;
- (d) inspect, take copies of and retain in the possession of the officer while the officer completes any search, examination or inspection provided for under this article, any

chwilio, archwilio neu arolygu y darperir ar ei gyfer o dan yr erthygl hon;

- (d) caiff ei gwneud yn ofynnol i feistr y cwch neu unrhyw berson sydd ar y pryd â gofal y cwch i roi unrhyw ddogfen o'r fath sydd ar system gyfrifiadurol ar ffurf weledol a darllenadwy y gellir mynd â hi oddi yno;
- (dd) os yw'r cwch yn un y mae gan y swyddog reswm i amau bod tramgwydd wedi cael ei gyflawni ynglŷn ag ef o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff gymryd meddiant a dal gafael yn unrhyw ddogfen o'r fath a ddangosir i'r swyddog neu os daw o hyd iddi ar fwrdd y cwch er mwyn galluogi bod y ddogfen yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth mewn rheithdrefn ar y tramgwydd; a
- (e) caiff symud oddi yno, neu awdurdodi yn ysgrifenedig berson arall i symud oddi yno, y ddyfais olrhain drwy loeren, neu unrhyw ran ohoni, ac unrhyw gyfarpar arall ar fwrdd y cwch y mae'r swyddog o'r farn eu bod yn angenrheidiol er mwyn cadarnhau-
 - (i) a fu ymyrraeth â'r ddyfais olrhain drwy loeren, neu
 - (ii) a oes unrhyw gyfarpar arall ar fwrdd y cwch yn amharu ar drosglwyddo'r wybodaeth a nodir yn Erthygl 5(1) o Reoliad y Comisiwn

neu er mwyn archwilio, profi, trwsio neu ailosod y cyfryw gyfarpar.

(4) Os yw'n ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig bod tramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, wedi cael ei gyflawni ar unrhyw adeg, caiff y swyddog-

- (a) ei gwneud yn ofynnol bod meistr y cwch y cyflawnwyd y tramgwydd mewn cysylltiad ag ef, neu'r swyddog ei hun, yn mynd â'r cwch a'r criw i'r porthladd cyfleus agosaf yn ei dyb ef; a
- (b) dal gafael, neu yn ei gwneud yn ofynnol bod y meistr yn dal gafael, yn y cwch yn y porthladd,

a phan fydd swyddog o'r fath yn dal gafael mewn cwch neu'n gwneud hynny'n ofynnol, rhaid i'r swyddog gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meistr yn datgan y delir gafael yn y cwch neu fod hynny'n ofynnol hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig ychwanegol a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig

Diogelu swyddogion

18. Ni fydd swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig neu berson sy'n cynorthwyo swyddog o'r fath yn rhinwedd erthygl 17(2) o'r Gorchymyn hwn yn atebol mewn unrhyw reithdrefnau sifil neu droseddol am unrhyw beth a gaiff ei wneud wrth arfer yn honedig y

such document produced to the officer or found on board;

- (e) may require the master or any person for the time being in charge of the boat to render any such document on a computer system into a visible and legible form in which it may be taken away;
- (f) where the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that an offence under this Order or under any equivalent provision has been committed, may seize and detain any such document produced to the officer or found on board for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence; and
- (g) may remove, or authorise in writing any other person to remove, the satellite-tracking device, or any part thereof, and any other equipment on board which the officer considers necessary for the purpose of establishing-
 - (i) whether the satellite-tracking device has been tampered with, or
 - (ii) whether any other equipment on board is interfering with the transmission of the information set out in Article 5(1) of the Commission Regulation

or for the purpose of examining, testing, repairing or replacing such equipment.

(4) Where it appears to a British sea-fishery officer that an offence under this Order or under any equivalent provision has at any time been committed, the officer may-

- (a) require the master of the boat in relation to which the offence took place to take, or the officer may take, the boat and its crew to the port which appears to the officer to be the nearest convenient port; and
- (b) detain or require the master to detain the boat in the port,

and where such an officer detains or requires the detention of a boat the officer must serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by a British sea-fishery officer.

Protection of officers

18. A British sea-fishery officer or a person assisting such an officer by virtue of article 17(2) of this Order will not be liable in any civil or criminal proceedings for anything done in the purported exercise of the powers conferred by virtue of article 17 of this Order if

pwerau a roddwyd yn rhinwedd erthygl 17 o'r Gorchymyn os yw'r llys wedi'i fodloni-

- (a) bod y weithred wedi cael ei gwneud mewn modd didwyll;
- (b) bod seiliau rhesymol dros ei gwneud; a
- (c) ei bod wedi cael ei gwneud gyda sgil resymol a gofal rhesymol.

Rhwystro etc

19.-(1) Bydd unrhyw berson sydd-

- (a) ym methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig o dan y pwerau a roddir i swyddog o'r fath gan erthygl 17 o'r Gorchymyn hwn;
- (b) heb esgus rhesymol yn rhwystro, neu'n ceisio rhwystro, unrhyw berson arall rhag cydymffurfio â gofyniad o'r fath; neu
- (c) yn fwriadol yn rhwystro unrhyw swyddog o'r fath sy'n arfer unrhyw un o'r pwerau hynny, unrhyw berson sy'n cynorthwyo swyddog o'r fath yn rhinwedd erthygl 17(2) neu unrhyw swyddog a awdurdodwyd gan swyddog o'r fath o dan erthygl 17(3)(e),

yn euog o dramgwydd.

(2) Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan baragraff (1) uchod yn agored-

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol; neu
- (b) o'i gollfarnu ar ddiad i ddirwy.

RHAN 6

AMRYWIOL AC ATODOL

Darpariaethau o ran tramgwyddau a rheithdrefnau

20.-(1) Os profir bod unrhyw dramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol wedi'i gyflawni gan gorff corfforaethol gyda chydysniad neu gymeradwyaeth, neu os gellir priodoli unrhyw esgeulustod ar ran, cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall tebyg o'r corff corfforaethol, neu berson sy'n honni ei fod gweithredu mewn unrhyw swyddogaeth o'r fath, mae'r person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

the court is satisfied-

- (a) that the act was done in good faith;
- (b) that there were reasonable grounds for doing it; and
- (c) that it was done with reasonable skill and care.

Obstruction etc

19.-(1) Any person who-

- (a) fails without reasonable excuse to comply with any requirement imposed by a British sea-fishery officer under the powers conferred on such an officer by virtue of article 17 of this Order;
- (b) without reasonable excuse prevents, or attempts to prevent, any other person from complying with any such requirement; or
- (c) intentionally obstructs any such officer who is exercising any of those powers, any person assisting such an officer by virtue of article 17(2) or any person authorised by such an officer under article 17(3)(g),

is guilty of an offence.

(2) A person guilty of an offence under paragraph (1) is liable-

- (a) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum; or
- (b) on conviction on indictment to a fine.

PART 6

MISCELLANEOUS AND SUPPLEMENTAL

Provisions as to offences and proceedings

20.-(1) Where any offence under this Order, or under any equivalent provision, committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or approval of, or to be attributable to any neglect on the part of, a director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate, or a person purporting to act in any such capacity, that person, as well as the body corporate, is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) Os profir bod unrhyw dramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol wedi'i gyflawni gan bartneriaeth gyda chydsyniad neu ymoddefiad, neu os gellir priodoli unrhyw esgeulustod ar ran partner, mae'r partner hwnnw yn ogystal â'r bartneriaeth yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(3) Os profir bod unrhyw dramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol wedi'i gyflawni gan gymdeithas anghorfforedig (heblaw partneriaeth) gyda chydsyniad neu ymoddefiad, neu os gellir priodoli unrhyw esgeulustod ar ran unrhyw swyddog o'r gymdeithas, mae'r swyddog hwnnw yn ogystal â'r gymdeithas yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

Derbynioldeb tystiolaeth llyfrau lög a dogfennau eraill

21. Bydd unrhyw-

- (a) llyfr lög a gedwir o dan Erthyglau 6, 17(2) neu 28c;
- (b) datganiad a gyflwynir o dan Erthyglau 8(1), 11, 12, 17(2) neu 28f;
- (c) adroddiad ar ymdrech wedi'i gwblhau o dan Erthygl 19b a 19c; neu
- (ch) dogfen a luniwyd o dan Erthyglau 9 neu 13,

o Reoliad y Cyngor 2847/93 ac unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol a dderbynir gan Ganolfan Monitro Pysgodfeydd, mewn unrhyw reithdrefnau am dramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu o dan ddarpariaeth gyfatebol, yn cael eu derbyn yn dystiolaeth heb iddynt gael eu dangos gan unrhyw dyst neu fod unrhyw dyst yn mynd ar ei lw yn eu cylch a bydd yn dystiolaeth ddigonol o'r materion a ddatgenir ynddynt neu sy'n ymddangos ynddynt.

RHAN 7

DIRYMU

Dirymu

22.-(1) Dirymir Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000(1) .

(2) Dirymir Rheoliadau Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000 2002(2)

(1) O.S. 2000/1078 (Cy.71).

(2) O.S. 2002/677 (Cy.74).

(2) Where any offence under this Order, or under any equivalent provision, committed by a partnership is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a partner, that partner, as well as the partnership, is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(3) Where any offence under this Order, or under any equivalent provision, committed by an unincorporated association (other than a partnership) is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, any officer of the association, that officer, as well as the association, is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

Admissibility in evidence of logbooks and other documents

21. Any-

- (a) logbook kept under Articles 6, 17(2) or 28c;
- (b) declaration submitted under Articles 8(1), 11, 12, 17(2) or 28f;
- (c) effort report completed under Articles 19b and 19c; or
- (d) document drawn up under Articles 9 or 13,

of Council Regulation 2847/93 and any required information received by a Fisheries Monitoring Centre may, in any proceedings for an offence under this Order or under any equivalent provision, be received in evidence without being produced or sworn to by any witness and will be sufficient evidence of the matters stated therein or appearing therefrom.

PART 7

REVOCATION

Revocation

22.-(1) The Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2000(1) is revoked.

(2) The Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2000 Amendment Regulations 2002(2) are revoked.

(1) S.I. 2000/1078 (W.71).

(2) S.I. 2002/677 (W.74).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

18 Hydref 2006

18 October 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 2798 (Cy.237)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi
Mesurau Cymunedol ar gyfer
Monitro drwy Loeren) (Cymru)
2006

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 2798 (W.237)

**SEA FISHERIES,
WALES**

The Sea Fishing (Enforcement of
Community Satellite Monitoring
Measures) (Wales) Order
2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W393/10/06

ON